JANE HUTT AC
Minster for Business and Budget
Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf / Our ref:

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Ebrill 2010

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2010

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi bod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri, hynny er mwyn gallu dod â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2010 i rym yng Nghymru.

Cafodd y Rheoliadau eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ebrill 2010 a dônt i rym ar 12 Ebrill 2010. Maent yn diwygio Rheoliadau'r GIG (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 / 1104 (Cy.116) sy'n darparu ar gyfer talu treuliau teithio a pheidio â chodi tâl y GIG ar bobl ar incwm isel ymhlith eraill, trwy gyfeirio at derfynau incwm a chyfalaf.

Mae diwygiadau'r Rheoliadau hyn yn cysoni'r terfyn cyfalaf yn Rheoliadau 2007 â'r terfynau a bennir mewn diwygiadau tebyg ("*diwygiadau gofal preswyl*") yn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010 ar gyfer cyfrifo'r tâl a godir am ofal preswyl. Cafodd y rheoliadau hyn eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2010.

Daw'r diwygiadau gofal preswyl i'r terfynau cyfalaf i rym ar 12 Ebrill 2010. Byddai'n rhesymol i'r bobl hynny sy'n derbyn gofal preswyl ac a fyddai'n cael gofyn am help gyda'u costau iechyd o dan y Cynllun Incwm Isel (LIS) ddisgwyl bod yr un terfynau cyfalaf yn cael eu defnyddio i gyfrif eu hawl â'r rheini a geir yn y 'diwygiadau gofal preswyl'; mae'n hanfodol felly bod y diwygiadau

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) *Printed on 100% recycled paper*

i'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar y dyddiad hwnnw er mwyn i'r un terfynau cyfalaf fod yn gymwys i'r ddwy set o reoliadau yr un pryd.

Heb ddiwygio'r 'Prif Reoliadau', byddai hawliad o dan yr LIS gan berson sy'n derbyn gofal preswyl yng Nghymru yn dal i gael ei brosesu yn unol â therfynau cyfalaf y llynedd, gan olygu na chai'r hawlydd fanteisio ar y cynnydd yn y terfyn cyfalaf.

Er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau mwyaf priodol i bobl yng Nghymru a allai gael help â'u costau iechyd, rydym wedi aros am y Rheoliadau Seisnig cyfatebol terfynol a gafodd eu gosod ger bron Senedd y DU ar 9 Mawrth. Rydym drwy hynny wedi gallu crisialu'r sefyllfa o safbwynt y bobl nad ydynt yn derbyn gofal preswyl ond sydd yn dal i fod â'r hawl i hawlio costau iechyd o dan yr LIS.

Am y rhesymau hyn, mae angen torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau hyn allu dod i rym ar 12 Ebrill 2010.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn gan nad ydynt yn cael effaith ar fusnesau, elusennau na mudiadau gwirfoddol ac nid ydynt yn newid y polisi diweddaraf; y cyfan a wnânt yw codi'r terfyn cyfalaf. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi a'i osod gyda'r Rheoliadau hyn, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Yn gywir

Jane Hutt AC
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb